# Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethu i Rieni

## 2023 - 2024

## Dyddiadau'r Tymor 2024 - 2025

| TYMOR | DECHRA U | HANNER TYMOR | DIWEDD TYMOR |
|---|---|---|---|
| Tymor yr Hydref | 02.9.24 | 28.10.24 - 1.11.24 | 20.12.24 |
| Tymor y Gwanwyn | 06.01.25 | 24.02.25 - 28.02.25 | 11.04.25 |
| Tymor yr Haf | 28.04.25 | 26.05.25 - 30.05.25 | 18.07.25 |

## Dyddiadau Diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd 2024 - 2025

Bydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion ar y dyddiau hyn.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 02.09.24 | 03.09.24 | 25.9.24 | 06.01.25 | 03.02.25 | 21.07.25 |

| Cynnwys | |
|---|---|
| **Pennawd** | **Tudalen** |
| Gair gan y Pennaeth | 4 |
| Gair gan Gadeirydd y Llywodraethwyr | 5 |
| Llywodraethwyr Ysgol Pencae | 6 |
| Crynodeb Cyllideb<br>Crynodeb Presenoldeb | 7 |
| Cynnydd yn erbyn y cynllun ôl-arolwg | 8-10 |
| Cysylltiadau Cymunedol | 11 - 14 |
| Cyfraniadau i Elusennau | 15 |
| Ymwelwyr, Ymweliadau a Gweithdai | 16-18 |
| Cwricwlwm yr ysgol | 19-21 |
| Chwaraeon | 22 |
| Llais y Plentyn | 23-26 |
| Pwyllgorau Llais y Plentyn | 27 |
| Pontio | 28 |
| Staffio | 29 |
| Datblygiadau'r Ysgol | 30 |
| Polisïau | 31 |
| Datblygiad Proffesiynol Parhaus | 32 |
| Datblygiadau a Chyfathrebu gyda Rhieni | 33-34 |
| Cymdeithas Rhieni ac Athrawon | 35 |
| Newidiadau i'r Prosbectws, Blaenoriaethau Cynllun Gwella Ysgol 2024 - 2025 ac Edrych Ymlaen at 2024 - 2025 | 36 |

# Gair gan y Pennaeth

Am flwyddyn! Mae wedi bod yn flwyddyn hynod o brysur ac unwaith yn rhagor, mae wedi bod yn bleser profi cynnydd eich plant wrth iddyn nhw ddangos brwdfrydedd wrth ddysgu, wrth iddyn nhw groesawu pob profiad yn awchus ac wrth iddyn nhw dyfu'n unigolion hyderus, annibynnol a moesol!

Does dim profiad gwell na cherdded o amgylch dosbarthiadau'r ysgol a gwylio'r disgyblion wrth eu boddau yn dysgu! Mae yna gwestiynau difyr a dyrys yn cael eu holi, mae yna archwilio cyson ac ysfa i ddysgu a darganfod mwy ac mae'r creadigrwydd sydd gan ein disgyblion i'w ganmol. Rwy'n falch iawn o'r profiadau dysgu mae'r disgyblion yn eu derbyn ac yn teimlo'n hyderus bod arweinwyr y dyfodol yn eistedd yn nosbarthiadau Ysgol Pencae.

Roedd yna gymaint o uchafbwyntiau yn ystod y flwyddyn. Does dim modd anwybyddu llwyddiannau chwaraeon yr ysgol. Bu cystadlu llwyddiannus mewn amrywiol feysydd ond y rygbi a serennodd eleni! Roedd ein sgwad yn un uchelgeisiol a chystadleuol a oedd yn wynebu pob gêm gydag un amcan - ennill! A dyna'n wir a wnaethon nhw, amryw o weithiau! Fe wnaethon nhw gyrraedd rownd derfynol Rygbi ysgolion De Cymru a llwyddon nhw i gyrraedd twrnamaint cenedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth. Roedd hi'n bleser arsylwi eu hangerdd a diolch o galon i'r cefnogwyr brwd a oedd yn ymuno gyda ni yn y gemau!

Uchafbwynt arall oedd ein gweithgarwch wrth i ni ddatblygu'r ysgol i fod yn Ysgol Noddfa. Fel ysgol rydym yn arddel cwrteisi a pharch erioed yn brif werthoedd yr ysgol a'n disgyblion, pwy bynnag ydych chi. Ond, mae ein gweithgarwch eleni wrth addysgu ein disgyblion am fywydau ffoaduriaid wedi dyfnhau dealltwriaeth ein disgyblion o'r dioddefaint sydd yn y byd a'r ffordd maen nhw'n gallu helpu eraill. Rwy'n llawn ffydd y bydd y byd yn lle mwy caredig yn y dyfodol gyda'n plant ni a'u dealltwriaeth nhw wrth y llyw.

Mae dod â'n sioe haf yn ôl ar gyfer yr adran dros 7 wedi bod yn hir-ddisgwyliedig ond roeddwn wrth fy modd ym mis Gorffennaf yn dathlu ein sioe, Matilda gyda chymuned yr holl ysgol. Nid ar chwarae bach mae creu sioe o'r fath safon ond gyda staff creadigol a disgyblion sydd wrth eu bodd yn perfformio, llwyddwyd i gynhyrchu sioe liwgar, lawn hwyl a hynod o safonol. Mae'r caneuon a'r perfformiadau am aros yn ein cof am fisoedd i ddod.

Mae fy niolch yn parhau i'r staff hynod ymroddgar a gweithgar sydd gennym ni yma yn Ysgol Pencae. Mae hi hefyd yn bleser cydweithio gyda nhw yn ddyddiol er budd eich plant. Braf iawn oedd croesawu Mrs Parry yn ôl o gyfnod mamolaeth ond bu rhaid ffarwelio gyda Mrs Nerys Evans, Miss Taome Edwards a Miss Sioned Maskell. Dymunwn bob lwc i Mrs Evans wrth iddi ddechrau ei hymddeoliad a diolch o waelod calon iddi am y blynyddoedd o waith mae hi wedi'u rhoi i'r ysgol. Diolch hefyd i Miss Edwards ac i Miss Maskell am eu cwmni a'u gwaith yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Dymunwn bob lwc iddyn nhw yn eu gyrfaoedd.

Cymuned yw Ysgol Pencae ac mae'r agosatrwydd cefnogol sydd yn yr ysgol i'w ddathlu ac i'w drysori. Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn ac edrychwn ymlaen yn arw i barhau gyda'r bartneriaeth a'r gwaith caled y flwyddyn nesaf.

Siwan Dafydd

# Gair gan Gadeirydd y Llywodraethwyr

Annwyl Rieni

Gair i gyflwyno adroddiad blwyddyn lwyddiannus arall yn hanes Ysgol Pencae. Rydyn ni wedi llwyddo mewn amrywiaeth eang o feysydd eleni eto, boed hynny'n rhai academaidd, cerddorol a pherfformiadol, rhai'n perthyn i fyd y campau neu mewn ystod o feysydd eraill. Mae hyn yn dyst i'r nifer fawr o gyfleoedd o bob math a gynigir i'n disgyblion – cyfleoedd y maen nhw wedi'u cofleidio'n eiddgar a brwdfrydig.


Un peth nodedig yw'r ffordd y mae'r ysgol yn ymfalchïo'n haeddiannol yn ei Chymreictod yn gyfochr â'r ffordd y mae'n estyn llaw i groesawu cynrychiolwyr o ddiwylliannau eraill. Eleni er enghraifft daeth aelodau o'r gymdeithas Gwrdaidd i'r ysgol a chawsom gyfle i glywed ganddyn nhw am eu traddodiadau gan brofi hefyd rai o'u bwydydd blasus. Mae'n werth sôn hefyd am yr hwyl a'r budd a gafodd y plant wrth ddysgu Mandarin, arfer sydd wedi'i hen sefydlu bellach yn yr ysgol.

Gwedd amlwg arall yn ein gwaith oedd yr ymwneud hapus a chyfrifol â gwaith elusennol a gallwn ymfalchïo eleni eto yn ein cyfraniad i nifer o elusennau gwahanol. Ysgol sy'n darparu ar gyfer y gymuned o'i chylch yw Pencae wedi'r cyfan a braf a chalonogol oedd gweld rhai o drigolion yr ardal yn galw heibio yn ein hachlysuron agored ac yn mwynhau bod gyda ni.

Ac ni allwn lai na chyfeirio at Matilda, y sioe ryfeddol a lwyfannwyd yn wych gan ddisgyblion yr ysgol yn neuadd Ysgol Glantaf. Roedd yn brofiad bythgofiadwy i'r disgyblion a gymerodd ran ac i bawb a fu'n ymwneud â'r perfformiad. Roedd yn destun edmygedd i bawb oedd yn gwylio. Profiad hyfryd hefyd oedd cael clywed y disgyblion yn eu dathliadau cyhoeddus, er enghraifft yn yr Ysgol ac yn y Gadeirlan.

Rydyn ni'n diolch yn ddiffuant i'n Pennaeth am ei gweledigaeth, ei harweiniad a'i gofal eithriadol. Diolch hefyd i'r tîm o athrawon a chynorthwywyr na chewch chi mo'u gwell yn unman, a hefyd i rieni ymroddedig a theyrngar yr ysgol. Cant a mil o ddiolch i aelodau Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr Ysgol am eu gwaith allweddol yn ategu'n sylweddol iawn at y coffrau ac am bob cymorth arall.

Ac yn olaf, diolch i'r plant am ymroi i'r holl waith amrywiol. Maen nhw wedi dangos eleni eto mai trwy ymdrechu y daw llwyddiant. Edrychwn ymlaen yn ffyddiog at flwyddyn dda eto mewn ysgol lle mae'r plant yn ddiddig ac yn cael eu paratoi ac yn ymateb mewn ffordd ddi-ail ar gyfer eu dyfodol.



Daniel Tiplady

*Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Pencae*

# Llywodraethwyr Ysgol Pencae 2023/24

Mae Corff Llywodraethwyr Ysgol Pencae yn griw o bobl sydd yn rhannu'r un weledigaeth o ran sicrhau'r safonau uchaf ar gyfer addysg ein disgyblion. Yn flynyddol, ceir pedwar cyfarfod Corff Cyfan ynghyd â chyfarfodydd gydag is-bwyllgorau o fewn y corff.

| Llywodraethwr | Math o Lywodraethwr | Cyfnod yn y Swydd | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|
| Cadeirydd:<br>Mr Daniel Tiplady | Llywodraethwr Cymunedol | Mawrth 2026 | **Mr Daniel Tiplady,**<br>Ysgol Pencae,<br>Highfields,<br>Gilian Road,<br>Llandaf,<br>Caerdydd,<br>CF5 2QA<br>(029 20 563 851) |
| Mrs Eleri Hurley | Llywodraethwr Cymunedol | Chwefror 2027 | |
| Mr Ian Speakman | Llywodraethwyr AALl | Tachwedd 2023 | |
| Mrs Blodwen Lewis | | Ionawr 2026 | |
| Mrs Glenys Llywelyn | | Tachwedd 2024 | |
| Mrs Delyth Evans | | Ionawr 2028 | |
| Mrs Emma Simpkins | Rhiant Lywodraethwyr | Mehefin 2025 | |
| Mr Owain Jones | | Rhagfyr 2025 | |
| Dr Rhiannon Marks | | Mai 2027 | |
| Mrs Bethan Parry | Cynrychiolwyr Staff | Tachwedd 2025 | |
| Miss Catrin Fflur Williams | | Mai 2027 | |
| Mrs Marie Le Bon | | Chwefror 2024 | |
| Miss Siwan Dafydd | Pennaeth | | |
| Mr Aled Thomas | Sylwebydd | | |
| Ms Cerys Richardson | Clerc | Cerys.Richardson2@cardiff.gov.uk | |

# Crynodeb Cyllideb

| **Cyfanswm adnoddau ar gael yn 2023 - 2024**<br>**Total resources available in 2023 - 2024** | |
|---|---|
| Balansau ysgol a ddygwyd ymlaen o 2022-2023<br>School balances brought forward from 2022-2023 | £40,631 |
| Cyfanswm adnoddau dirprwyedig<br>Total delegated resources | £842,240 |
| **Cyfanswm**<br>**Total** | £882,871 |
| Gwariant Cyflawnedig<br>Actual Expenditure | £795,271 |
| **Cyfanswm Balans a ddygwyd ymlaen i 2023 - 2024**<br>**Total balance carried forward to 2023 - 2024** | £87,600 |

# Crynodeb Presenoldeb

| | |
|---|---|
| **Presenoldeb**<br>**2023-2024**<br>**2023-2024 Attendance** | **95.4%** |

# Cynnydd yn erbyn y cynllun ôl-arolwg

| **Dyddiad Arolwg Diwethaf:** Ionawr 2017 | **Gallu i Wella:** Rhagorol | | | |
|---|---|---|---|---|
| Argymhelliad: | **Cynnydd Rhagorol** | **Cynnydd Da** | **Cynnydd Boddhaol** | **Cynnydd Anfoddhaol** |
| | **Camau Gweithredu** | | **Staff** | **Cost** |
| A1: Gwella gallu ychydig o ddisgyblion yn CA2 i gymhwyso eu medrau rhifedd yn gadarn ar draws y cwricwlwm. | *Ail fapio rhifedd yn dynn<br><br>*Wythnos Rhifedd – Mentergarwch, Plant Mewn Angen<br><br>*Tasgau Cyfoethog wythnosol gan gynnwys gweithgareddau yn yr awyr agored<br><br>*Hyfforddiant Lynwen Barnsley 19.9.17 & 18.10.17<br><br>*Hyfforddiant Louise Davies 23.3.18<br><br>*Amserlennu ardal Pencoed<br><br>*Hyfforddiant Gareth Coombes 29.09.17 (Cwricwlwm i Gymru)<br><br>*Addasu'r cynllunio er mwyn ymgorffori meysydd dysgu a phrofiad<br><br>* Hyfforddiant Excellence for Wales 2020<br><br>* Hyfforddiant Louise Thomas - Rhifedd<br><br>* Mae'r Ysgol wedi gwneud paratoadau at Gwricwlwm i Gymru.<br><br>**<u>2022 - 2023</u>**<br><br>*Ymgymryd gyda chyfarfodydd Rhwydwaith Consortiwm De Cymru<br><br>*Hyfforddiannau gan Louise Davies (Rhesymu a Dilyniant Strategaethau'r 4 Rheol; y 5 Hyfrededd)<br><br>*Cyflwyniad 4Maths<br><br>*Cyfarfodydd Clwstwr<br><br>*Sesiynau Ysgol Goedwig Rhifedd (Bl3)<br><br>**<u>2023 - 2024</u>**<br><br>*Mapio strategaethau wrth addysgu'r 4 rheol<br><br>*Cwrs CAME | | SD<br><br>BP<br><br>Holl Staff<br><br>AL<br><br>Hoff Staff<br><br>SD<br><br>AT<br><br>AL<br><br>Holl staff<br><br>MP<br><br>BP | £2,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *Cydweithio Clwstwr - edrych ar ddilyniant o fewn ffracsiynau | | |
| A2: Sicrhau bod gweithgareddau awyr agored yn y CS yn datblygu medrau disgyblion yn gynyddol trwy atgyfnerthu gwaith ffocws sy'n digwydd yn y dosbarth. | *Buddsoddi mewn adnoddau – neuadd fach a'r ardal wydr / Landscape Wales<br><br>*Cynllunio darpariaeth barhaus yn fwy manwl a bwriadus<br><br>*Cynllunio ar gyfer cymhorthion yn fwy strwythuredig<br><br>*Ymweld ag Ysgol Gymraeg Casnewydd, Ysgol Llanishen Fach<br><br>*Amserlenni ardal Pencoed<br><br>*Hyfforddiant Gareth Coombes 29.09.17 (Cwricwlwm i Gymru)<br><br>*Awr Aur Pencae<br><br>*Ffocws GGY9 – Heriau yn y gofod allanol<br><br>*Hyfforddiant Cath Delve – gweithgareddau yn y gofod allanol<br><br>*Addasu'r cynllunio er mwyn ymgorffori meysydd dysgu a phrofiad<br><br>* Cynllun Erasmus - athrawon wedi ymweld ag ysgolion eraill mewn gwledydd gwahanol. Y staff sydd wedi mynychu'r ymweliadau wedi creu pamffled o weithgareddau awyr agored.<br><br>* 2021 Llawr newydd yn y cwadrant sydd wedi ychwanegu at ddarpariaeth yr ardal allanol.<br><br>**<u>2022 - 2023</u>**<br><br>-Ymweld ag Ysgol Radur (BP a CR), Ysgol Evan James (BP) ac Ysgol Llanhari (holl staff dan 7)<br><br>-Datblygu'r neuadd fach - ar waith<br><br>-Cydweithio gydag athro arbenigol o Gonsortiwm Canolbarth y De (SD a CR)<br><br>-Datblygu ardal Pentref Pencae<br><br>**Mae newidiadau personél mawr wedi bod yn yr adran dan 7**<br><br>**<u>2023 - 2024</u>** | SD<br><br>BP<br><br>Holl Staff<br><br>CR, TE, EE<br><br>CR, TE, EE<br><br>PTA<br><br>CR, BP, EE | £3,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *Sefydlu ardaloedd dysgu cyson yn y dosbarthiadau i gyd<br><br>*Sefydlu ardaloedd dysgu penodol yn y neuadd fach<br><br>*Buddsoddi mewn blociau Froebel (cyfraniad gan y CRhA)<br><br>*Cyfoethogi amgylchedd yr ardal wydr i fod yn llythrennedd a rhifedd gyfoethog<br><br>*Buddsoddi mewn adnoddau i'r ardal mwd (cyfraniadau gan deuluoedd yr ysgol | | |
| A3: Gwella adborth ysgrifenedig ychydig o athrawon fel bod disgyblion yn gwybod yn union beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn datblygu eu medrau ymhellach. | *Hyfforddiant Gareth Coombes 29.09.17 (Cwricwlwm i Gymru)<br><br>*Addasu polisi marcio<br><br>*Ymgorffori sesiwn ymateb i farcio wythnosol<br><br>*Ymgorffori asesiadau cynnydd tymhorol<br><br>*Sicrhau cysondeb ysgol gyfan / cymedroli<br><br>*Datblygu strategaethau Asesu ar Gyfer Dysgu – dotiau porffor<br><br>*Datblygu deialog adborth ymhellach yn y llyfrau Pencampweithiau Pencae er mwyn rhoi cyfle cyson i ail ddrafftio ac ymateb i farcio.<br><br>**<u>2022 - 2023</u>**<br><br>-Ymchwil Gweithredol Staff: Asesu Ar Gyfer Dysgu Hunan Asesu / Asesu Cyfoedion<br><br>-Datblygu strwythur a threialu Cyfarfodydd Cynnydd (Blwyddyn 3 Tymor yr Haf)<br><br>*Addasu Polisi Adborth<br><br>**<u>2023 - 2024</u>**<br><br>*Ymchwil Gweithredol: Adborth | RT<br><br>SD<br><br>BR<br><br>Holl Staff<br><br>Holl athrawon<br><br>SD a CFfW<br><br>SD<br><br>Holl athrawon | £500 |

# Cysylltiadau Cymunedol

## Drysau Agored Pencae

Agorwyd drysau'r ysgol i'n cyfeillion yn Llandaf fel rhan o gynllun Drysau Agored Llandaf ym mis Medi. Mwynhawyd cyngerdd gan y disgyblion a phaned i glywed am weithgarwch yr ysgol. Croesawyd 20 o'r gymuned.

Aeth blwyddyn 5 am dro i'r Gadeirlan er mwyn derbyn taith o amgylch yr adeilad godidog a gweithdy celf. Roedd y disgyblion wrth eu boddau yn braslunio.

## Eisteddfod Ysgol Pencae

Cynhaliwyd Eisteddfod Ysgol yn yr ysgol fel rhan o'n dathliadau Wythnos Dathlu Cymreictod. Roedd yn ddiwrnod llawn hwyl gyda'r llysoedd yn cystadlu'n frwd mewn cystadlaethau hwyliog. Roedd yr holl ddisgyblion wedi cwblhau gwaith llenyddol a braf oedd gwobrwyo enillwyr ym mhob ystod oedran. Roedd blwyddyn 6 yn cystadlu am Gadair Ysgol Pencae ac ar ddiwedd y dydd croesawyd rhieni blwyddyn 6 i wylio'r seremoni a gweld Gruff Rees, enillydd y Gadair eleni yn cael ei urddo.

## Tafwyl

Mwynheuodd disgyblion yr adran dan 7 berfformio yng ngŵyl Tafwyl eleni. Braf oedd clywed eu detholiad o'u hoff ganeuon. Dyma brofiad gwerth chweil i'r disgyblion o gael perfformio yn y gymuned ynghyd â chyfle iddynt gymdeithasu yn y Gymraeg mewn awyrgylch anffurfiol. Roedd dawnsio a chanu brwd o flaen y brif lwyfan.

## Partneriaeth Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Braf oedd croesawu myfyrwyr o Brifysgol Metropolitan Caerdydd i'r ysgol. Daeth Cerith Davies, Siôn Cile a Madison Webb i'r ysgol fel rhan o'u cwrs gradd mewn addysg. Daeth Miss Campbell sydd wedi gwneud cwrs ymarfer dysgu uwchradd i arsylwi yn yr ysgol hefyd. Yn ogystal, hyfryd oedd croesawu Miss Emily a Miss Lili Davies i'r ysgol a oedd yn gwneud cwrs cynorthwyydd dysgu yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro. Braf iawn oedd dechrau cydweithio gyda IntroTeach eleni, wrth groesawu Alex a Celt fel cynorthwywyr fel rhan o'u cwrs prifysgol.

## PC Mirain

Diolch i PC Mirain am ymweld â phob dosbarth yn ystod y flwyddyn gan rannu gwybodaeth am faterion pwysig iawn gyda'r disgyblion, e.e. diogelwch ar y rhyngrwyd, ymddygiad derbyniol, ffrind neu elyn, ffyn a cherrig, ymddygiad cywir ac anghywir a phobl sy'n helpu. Dymunwn bob hwyl i PC Mirain ar ei chyfnod mamolaeth.

## Urdd Gobaith Cymru

Cymerodd nifer o ddisgyblion ran mewn pob math o weithgareddau a ddarparwyd gan fudiad yr Urdd yn ystod y flwyddyn, o goginio i rygbi, o ganu i bêl-rwyd. Mae bod yn aelod o'r Urdd yn sicrhau'r ymdeimlad o berthyn i Gymru ynghyd â mynnu balchder yn y Gymraeg ac yn hanes ac etifeddiaeth Cymru.

Aeth blwyddyn 5 i fwynhau gweithdy rygbi cadair olwyn a oedd wedi ei drefnu gan yr Urdd ac Undeb Rygbi Cymru. Dysgodd y disgyblion sut i reoli'r cadeiriau olwyn, rheolau'r gamp a chwrdd ag

arbenigwyr yn y maes. Unwaith eto eleni, aeth blwyddyn 6 i fwynhau wythnos yng ngwersyll yr Urdd Llangrannog.

## Eisteddfod yr Urdd

Bu cystadlu brwd yn yr Eisteddfod Gylch mewn unawdau, llefaru unigol a'r parti unsain. Llongyfarchiadau fil i Cadi Williams a'r parti unsain am fynd ymlaen i'r Eisteddfod Sir. Yn yr Eisteddfod Sir, roedd y Cyflwyniad Dramatig yn cystadlu hefyd ac roedden ni'n falch iawn o gipio'r drydedd wobr.



Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion a fu'n cystadlu yn y cystadlaethau Celf a Chrefft a llongyfarchiadau arbennig i Zack Crawford a enillodd y wobr gyntaf am godio gêm gyfrifiadurol.

Braf iawn oedd gweld cynifer o ddisgyblion yn cystadlu yng nghystadleuaeth Cogurdd yr Urdd. Roedd y neuadd dan ei sang gyda chogyddion hyderus yn paratoi salad blasus. Diolch i Mrs Haf Hayes am feirniadu a llongyfarchiadau fil i Gwenno Davies am ennill y rownd ysgol.

## Cerddoriaeth

Braf oedd ehangu ar brofiadau cerddorol ein disgyblion. O dan arweiniad Gareth Roberts o Wasanaeth Cerddorol y Sir, derbyniodd disgyblion blwyddyn 3 wersi wythnosol ar yr offeryn PBuzz cyn perfformio cyngerdd egnïol i'w rhieni yng Nglantaf a pherfformio gyda channoedd o ddisgyblion eraill y ddinas yng nghanolfan y Cenhedloedd Unedig.

Aeth criw o flwyddyn 3-6 i gynrychioli'r ysgol yng ngherddorfa'r Clwstwr. Wedi diwrnod o ymarfer ar y cyd, croesawyd y rhieni i glywed cyngerdd y Gerddorfa. Roedden nhw'n werth chweil ac yn sicr yn dangos Ymdrech a Lwydda!

## Coed Caerdydd

Bu blwyddyn 4 yn cydweithio gyda Choed Caerdydd wrth blannu coed yng nghoedwig Danescourt.

## Menter Caerdydd

Rydym wedi bod yn hynod o falch o allu datblygu ein perthynas gyda Menter Caerdydd ymhellach gan gynorthwyo i sicrhau digonedd o brofiadau allgyrsiol Cymraeg i blant y ddinas. Mae clwb Sparklab wedi ei gynnal yn yr ysgol ynghyd â gweithdai gwyddonol a chelf yn ystod gwyliau'r ysgol.

## Senedd Ysgolion Cymraeg

Fe wnaeth Anwen a Jac gynrychioli'r ysgol mewn sesiynau gyda Senedd Ysgolion Cymraeg Caerdydd, Ein Senedd Ni. Yma ceir cynrychiolaeth o bob ysgol gynradd Gymraeg ac maen nhw'n penderfynu ar agweddau i'w datblygu o fewn ein hysgolion. Y nod eleni oedd datblygu'r Gymraeg o fewn ein hysgolion.

## Teithio Llesol

Mae'r ysgol yn rhan o ymgyrch y sir o deithio i'r ysgol mewn modd llesol. Yn ddyddiol mae'r dosbarthiadau yn cofrestru eu dull o deithio i'r ysgol.



## Cydweithio gydag Ysgol Hawthorn, Ystum Taf

Rydym yn falch iawn o fod wedi parhau i gydweithio gydag Ysgol Hawthorn er mwyn datblygu eu defnydd nhw o'r Gymraeg. Creu rhaglen radio ar y cyd dan arweiniad Marci G oedd yr uchafbwynt. Mae ein Criw Cŵl ni wedi bod draw yn ymweld ac mae llwyth o weithgareddau wedi eu trefnu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

## Wythnos Ffoaduriaid

Fel rhan o'n gweithgarwch i sicrhau bod Ysgol Pencae yn ysgol noddfa, mae'r ysgol wedi bod yn cydweithio gyda llawer iawn o gymunedau'r ddinas. Chwaraeodd blwyddyn 6 griced gydag Ysgol Romilly, daeth elusen Oasis i mewn i'r ysgol, mwynhaodd y disgyblion goginio bwyd Cwrdaidd gydag unigolion o'r gymuned Cwrdaidd ynghyd â sgwrsio gydag unigolion sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru.

## Clwb Mandarin

Rydym yn ymfalchïo yn ein cysylltiad gydag Adran Confucius Prifysgol Caerdydd. Nhw sydd yn ein cynorthwyo ni wrth i ni ddarparu clwb Mandarin i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6. Dysgodd y disgyblion am draddodiadau Tsieina yn ogystal â datblygu eu geirfa Mandarin! Gwnaethon nhw hyd yn oed gystadlu mewn cystadleuaeth perfformio cân!




## Ymweliad Ima Galdos o Wlad y Basg

Braint oedd cyfarfod Ima Galdos a ddaeth i drafod traddodiadau Gwlad y Basg gyda'r disgyblion.

## Gwasanaeth Tân De Cymru

Diolch i Dan Tân a'i dîm o wasanaeth Tân De Cymru am ddod i drafod eu gwaith a diogelwch tân gyda disgyblion blwyddyn 2 a 5. Roedd y disgyblion wedi rhyfeddu gyda pha mor drwm oedd eu gwisgoedd diogelwch!



## Gŵyl Gerdd Dant Caerdydd

Eleni am y tro cyntaf erioed bu disgyblion Ysgol Pencae yn cystadlu yn yr Ŵyl Gerdd Dant gan ei bod hi yng Nghaerdydd. Diolch o galon i Owain Siôn Williams am osod y darn ar ein cyfer.

## Lego League, Caerdydd

Enillodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 gystadleuaeth Lego League Caerdydd am eu gwaith peirianneg a chodio. Roedden nhw wrth eu boddau yn cwblhau'r sialensiau ac yn cyflwyno eu syniad am sut i



# Cyfraniadau i Elusennau

Llynedd, fe wnaeth yr ysgol drefnu ystod o ddigwyddiadau er mwyn casglu arian i elusennau gwahanol.  Y Senedd Ysgol wnaeth llawer iawn o'r gwaith trefnu yma.

| **Plant Mewn Angen**<br>***Children In Need*** | **Gwisgwch Goch i Felindre**<br>***Wear Red for Velindre*** | **Diwrnod Trwynau Cochion**<br>***Comic Relief*** |
|---|---|---|
| £131.80 | £150.50 | £207.50 |
| **Dangoswch y Cerdyn Coch i Hiliaeth**<br>***Show Racism the Red Card*** | **Gwasanaeth Nadolig Cadeirlan**<br>***Cathedral Christmas Service*** | **Ffoaduriaid**<br>***Refugees*** |
| £85 | £318.74 | £150 |
| **Marie Curie** | | |
| £109 | | |

# Ymwelwyr, Ymweliadau a Gweithdai

Rydym yn manteisio ar bob cyfle i groesawu ymwelwyr i'r ysgol ac yn cymryd pob cyfle i fynd â'r disgyblion allan o'r ysgol ar ymweliadau a threfnu gweithdai a fydd yn ymestyn eu dysgu ymhellach.

## Tymor yr Hydref:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Drysau Agored**<br>Cyngerdd yn y neuadd<br>*Concert in the hall*<br>Bl5: Celf yn y Gadeirlan<br>Art at the Cathedral | **Ein Senedd Ni**<br>Senedd Ysgolion Caerdydd<br>*Cardiff Schools Council* | **Rhieni / Parents**<br>Cyflwyniadau Dosbarth a nosweithiau rhieni<br>*Class Presentations and parents evenings* | **Lowri Roberts**<br>Gweithdy Celf gyda'r Senedd<br>*Art workshop with the Senedd* |
| **Nofio / Swimming**<br>Blwyddyn 3 | **Cymru v Denmarc**<br>Aeth criw o Bl5 a 6 i'r gêm<br>*Some yr5 and 6 pupils went to the game* | **Sesiwn Blasu DanceFit**<br>***Taster Session***<br>Bl3 - 6 | **Gêm Rygbi / *Rugby Game***<br>5.10.23: Pencae v Melin Gruffydd<br>10.10.23: Pencae v Howardian |
| **Crwydr Dysgu/ Learning Walk**<br>Mel Godfrey, Cyfarwyddwr Addysg Caerdydd / *Director of Education, Cardiff*<br>Rhian Williams, Partner Gwella Ysgol / *School Improvement Officer* | **ADY / SEN**<br>Elen Derrick: Athrawes arbenigol Awtistiaeth / *ASD specialist teacher*<br>Kayleigh Fish: Athrawes Arbenigol Iaith a Lleferydd / *Speech and Language Specialist Teacher*<br>Gareth Jones: Athro Arbenigol Lles / *Wellbeing Specialist Teacher*<br>Jan Frost: Arweinydd Tîm Athrawon Arbenigol / *Specialist Teacher Team Leader*<br>Leah Caredig: Athro Arbenigol Llythrennedd / *Literacy Specialist Teacher*<br>Emma Lovett: Seicolegydd Addysg / *Educational Psychologist* | | **Gweithdy Pontio Hud a Lledrith**<br>***Magic Transition Session*** |
| | | | ***Gareth Roberts***<br>Gwersi PBuzz<br>Blwyddyn 3<br>*PBuzz Lessons* |
| **Gwaith Gwirfoddol / Voluntary Work**<br>Mrs Rhian Williams | | | **Dynion Tân / *Fire Men***<br>Blwyddyn 2 a 5 |

# Tymor y Gwanwyn:

**Dosbarth Derbyn**
Cyw, Bro Edern

**Blwyddyn 1 a 2:**
Hansel a Gretal, Sherman
Sain Ffagan / *St Fagans*
Ymweliad Cath Way / *Visit* (Bl2)

**Blwyddyn 3 a 4**
Mrs Simpkins: Cymorth Cyntaf / *First Aid*
Cyngerdd PBuzz *Concert (*Bl3)
Plannu Coed Caerdydd *Planting* (Bl4)

**Blwyddyn 5 a 6:**
Space Odyssey
Gweithdy Dangoswch y cerdyn coch i hiliaeth / *Show racism the red card Workshop*
Gweithdy Senedd Cymru *Workshop*

**MAT Blwyddyn 5 a 6:**
Gweithdy Rhifedd Ysgol Eglwys Newydd / *Numeracy Workshop, Whitchurch Primary*

**Blwyddyn 5:**
Cyfres o weithdai Chwaraeon, MET Caerdydd / *Sports Workshops, Cardiff MET*

***Jiaying***
Gwersi Mandarin / *Mandarin Lessons*

Cerddorfa Clwstwr / *Cluster Orchestra*

Eisteddfod Gylch

**Blwyddyn 6:**
PC Mirain
Gwasanaeth y Cofio / *Rememberance Service*
Gail James, Ysgol Glantaf
Gweithdy Yr Ynadon / *Magistrates Workshop*
Sesiwn Hawl i Holi Glantaf / *Glantaf Transition Q&A*
Gwilym, Ysgol Esgob Llandaf / *Bishop of Llandaf*
Llangrannog
Sioe Glantaf *show*

**Chwaraeon / *Sports***
Sesiwn aml-chwaraeon MET Caerdydd / *Cardiff MET multi-sports workshop (Bl3 a 4)*
Gêm bêl-droed yn erbyn Llandaf City / *Football game against Llandaf City (Bl5 a 6)*
Sioe Dancefit *Show*
Gêm rygbi yn erbyn Melin Gruffydd a Treganna / *Rugbi match against Melin Gruffydd and Treganna (Bl5 a 6)*
Twrnamaint pêl-droed yr Urdd Bechgyn / *Urdd Boys Football Tournament (Bl5 a 6)*
Twrnamaint pêl-droed yr Urdd Merched / *Urdd Girls Football Tournament (Bl5 a 6)*
Cystadleuaeth Gymnasteg Caerdydd / *Cardiff Gymnastics Competition*

Addurno Coed Nadolig, Byddin yr Iachawdwriaeth
*Decorate Christmas Trees with the Salvation Army*

**Gwasanaeth / *Assembly***
Tanvier Ahmed (Islam)
Adam Coleman (Cristnogaeth / *Christianity*)
Tîm pêl-fasged Cymru *Basketball team*

**<u>Yr Urdd</u>**
Cogurdd
Eisteddfod Offerynnol / *Instrumental*

**Côr**
Goleuadau Llandaf / *Llandaf Lights festival*
Gwyl Cerdd Dant
Parti Unsain: Eisteddfod Cylch

***CSC a Chyngor Sir Caerdydd***
***CSC and Cardiff County Council***
Rhian Jones a Cerys Adams-Jones - Iechyd a Diogelwch / *Health and Safety*
Byron Jones: Arolwg Tân Blynyddol / *Byron Jones: Annual Fire Safety Check*
Amanda Burnett - Cyllid / *Finance*
Fliss Mitchell - *PLASC*

# Tymor yr Haf:

| | | |
|---|---|---|
| **Dosbarth Derbyn**<br>**-**Plannu gyda'r teulu / Planting with the family | **Blwyddyn 1 a 2:**<br>Deian a Loli, Sherman<br>Bl1: Siopa yn Lidl / Shopping in Lidl<br>Bl2: Amgueddfa Cenedlaethol / National Museum<br>Bl2: Hen Lyfrgell am weithdy awdur gyda Huw Aron a Luned Aron / Author workshop, Old Library | **Blwyddyn 3 a 4:**<br>Bl4: Maes y Fron / Call of the Wild<br>Noson gyflwyno ac ymweliad / Introduction and residential<br>Bl3: Cyngerdd PBuzz, All Nations Centre<br>Gweithdy A day of welcome Workshop |
| **Blwyddyn 5 a 6:**<br>Ymweliad gan Fardd Plant Cymru visit: Nia Morais<br>Mewn Cymeriad Chwedlau Cymru / Welsh legends<br>Castell Caerdydd / Cardiff Castle<br>Prynhawn Tsieineaidd / Chinese Afternoon<br>Gweithdy Balchder Glasoed / Puberty Pride Workshop<br>Bl5: Rygbi Cadair Olwyn / Wheelchair Rugby WRU a'r Urdd<br>Bl5: Gwersi Hwylio / Sailing Lessons<br>Bl5: Cwrs Seiclo / Cycling Proficiency Course<br>Bl6: Ymweliad gan Mathew Evans, Glantaf<br>Bl6: Gŵyl y Gelli / Hay Festival<br>Bl6: Cyflwyniad a gweithdy Diogelwch y Ffordd / Road safety introduction and workshop<br>Bl6: Mabolgampau (Pontio / Transition) | ***Chwaraeon / Sports***<br><br>Gêm Bêl-droed Ysgol Pencae v Ysgol Y Gadeirlan<br>Gweithdy Dawnsio Gwerin / Folk Dancing Workshop, Tudur Phillips (Bl2 - 6)<br>Twrnamaint Pel-droed Merched Cardiff City Girls Football Tournament<br>Twrnamaint Rygbi Caerdydd Bl5 a 6 Tournament<br>Bl3 a 4: Pencae v Glan Ceubal<br>Sesiwn Blasu Yr Urdd / Urdd Taster Session<br>Bl3 a 4: Rygbi Tag Rugby, Yr Urdd<br>Bl5 a 6: Primary 5's Pêl-droed / Football<br>Bl5 a 6: Rygbi 7 bob ochr / 7-a-side Rugby, Urdd<br>Bl5 a 6: Rygbi Nationals 11-a-side Rugby<br>Bl3 a 4: Primary 5's Pêl-droed / Football Merched a Bechgyn / Girls and Boys<br>Bl5 a 6: Twrnamaint Criced Merched / Girls Cricket tournament<br>Bl6: Criced Ysgol Pencae v Kitchener School Cricket Game, Gerddi Sofia / Sophia Gardens | |

# Cwricwlwm yr Ysgol

Mae'r ysgol wedi parhau i ddatblygu ei phrosesau er mwyn ymsefydlu Cwricwlwm i Gymru yn ddyfnach yn ein dysgu ac addysgu. Rydym wedi cyfoethogi ein dysgu ac addysgu ac wedi gweithio'n ddyfal i sefydlu ein model asesu cynnydd.

## Model Addysgu:

Yn Ysgol Pencae rydym yn parhau i addysgu Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu ynghyd â Mathemateg a Rhifedd fel pynciau ar wahân yn ein sesiynau bore. Teimlwn yn gryf fod angen y sesiynau hyn er mwyn datblygu sgiliau allweddol y disgyblion a sicrhau cynnydd yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Wrth gwrs, yn amlach na pheidio mae ein cysyniadau cyd-destunol yn sail i'r dysgu hwn hefyd. O gael y sesiynau hyn yn ffurfiol, mae ein gallu i ddyfnhau'r ddealltwriaeth trwy gymhwyso'r sgiliau i weddill meysydd dysgu a phrofiad y cwricwlwm fel rhan o'n gwersi cyd-destun yn arfogi ein disgyblion gyda'r sgiliau allweddol i gyfathrebu eu dealltwriaeth a'u cynnydd.


Dyma amserlen Addysgu enghreifftiol yr ysgol:

| Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener |
|---|---|---|---|---|
| Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu | Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu | Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu | Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu | Dydd Gwener Cyd-destun |
| Mathemateg a Rhifedd | Mathemateg a Rhifedd | Mathemateg a Rhifedd | Mathemateg a Rhifedd | |
| Cyd-destun | Ymarfer Corff | Ymarfer Corff | Cyd-destun | |
| Cyd-destun | Cyd-destun | Cyd-destun | Cyd-destun | |

**Gwersi 10, 10, 10**

Ar ddyddiau Gwener, yn yr adran dros 7 rydym am yn ail wythnos yn cynllunio diwrnod 10-10-10 cyd-destun. Golyga hyn fod y dosbarth yn cael ei rannu yn dri grŵp o 10 plentyn sydd yn cwblhau tasg ffocws, tasg Amdani'n Annibynnol (o fwydlen o weithgareddau sy'n deillio'n drwm o Lais y Plentyn) a thasg Llywio Llwyddiant (sy'n cynnwys elfen o ddysgu cyfunol) yn ystod y diwrnod. Wrth eu holi am y sesiynau hyn, maen nhw'n gyson yn cyfeirio at y rhyddid maen nhw'n ei gael wrth ddysgu i ddangos annibyniaeth a chwblhau tasgau sy'n ddathliad o'u personoliaethau unigol nhw!

Yn yr adran dysgu sylfaen, mae egwyddor 10, 10, 10 yn parhau ond mae'r strwythur ychydig yn wahanol. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu yn 5 grŵp - gyda dau grŵp yn gweithio ar dasg ffocws, un grŵp yn cwblhau tasg Llywio Llwyddiant digidol a 2 grŵp yn cwblhau tasgau Amdani'n Annibynnol yn y ddarpariaeth barhaus. Rydym yn ceisio sicrhau bod gweithgareddau yn yr awyr agored yn rhan o'r model hwn er bod hyn yn parhau yn darged i'r ysgol.




## Wythnosau Ysgol Gyfan

Yn ysgol Pencae, rydym wrth ein boddau yn trefnu wythnosau dathlu ar y cyd. Yn ystod yr wythnosau hyn, mae'r staff yn cydweithio er mwyn rhannu ein harfer dda, ein harbenigedd ac i sicrhau cysondeb o ran cynnydd yn yr ysgol gyfan. Llynedd, fe wnaethon ni gynnal wythnos Ffoaduriaid, wythnos Iolo Iachus ac Wythnos Cymreictod.

**Wythnos Cymreictod:**

Mae ein hwythnos Cymreictod wedi'i hen sefydlu yn yr ysgol bellach ac yn ystod yr wythnos rydym yn crisialu ein balchder o fod yn Gymry! Mae'r wythnos gan amlaf wedi ei threfnu o amgylch Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod y Llyfr. Eleni, croesawyd Nia Morais, bardd plant Cymru, i'r ysgol, daeth Tudur Phillips i gynnal gweithdy clocsio ac aeth blwyddyn 6 draw i Ysgol Hawthorn i ddysgu gemau buarth i'r disgyblion.

Uchafbwynt arall oedd ein Heisteddfod Ysgol. Roedd y llysoedd yn cystadlu'n frwd yn erbyn ei gilydd yn y parti llefaru gwirion, yn y ddawns greadigol ac yn y Côr Llys. Yn ogystal, roedd y disgyblion yn darganfod enillwyr y cystadlaethau llenyddol gan gynnwys y Gadair. Gruff Rees o flwyddyn 6 oedd yr enillydd haeddiannol eleni.

**Wythnos Iolo Iachus - Iechyd a Lles**

Dyma wythnos arall sydd wedi ei hen sefydlu yng nghalendr yr ysgol. Wythnos yn nhymor yr haf ble byddwn ni'n dathlu ein hiechyd corfforol ynghyd â'n lles meddyliol ni gyda'r mabolgampau yn goron ar y cyfan ddiwedd yr wythnos. Yn ystod yr wythnos mae'r disgyblion yn trafod iechyd meddwl, yn trafod sut i fod yn ffrindiau da gan ddeall effaith bwlio, deall sut i gadw eu cyrff a'u meddyliau yn iach a thrafod perthnasau cadarnhaol. Uchafbwyntiau eleni oedd ein taith sgwrsio, ble aeth holl ddosbarthiadau'r ysgol am daith ar y cyd ar hyd afon Taf. Roedd y disgyblion wedi cymysgu er mwyn annog sgwrsio rhwng y disgyblion i gyd. Braint oedd clywed y sgwrsio prysur a'r chwerthin gydol y daith. Uchafbwynt arall i flynyddoedd 3 a 4 oedd dringo Mynydd y Garth - yn sicr roedd hyn yn llesol i'r meddwl a'r corff!

Mae'r disgyblion wrth eu boddau yn ein Gŵyl Chwaraeon Pencae - diwrnod sydd yn cael ei arwain gan ddisgyblion blwyddyn 6 wrth i bob llys eto gystadlu yn erbyn ei gilydd mewn gorsafoedd chwaraeon o amgylch yr ysgol. Diolch i flwyddyn 6 am eu gwaith paratoi, eu proffesiynoldeb a'u brwdfrydedd yn ystod y dydd.

## Cydweithio Clwstwr

Eleni, mae'r clwstwr wedi bod yn gweithio ar sicrhau cysondeb a dilyniant yn yr holl feysydd dysgu a phrofiad. Mae'r holl staff wedi bod yn cydweithio gyda thimau addysgu'r holl ysgolion yn y clwstwr i rannu arfer dda, i gyd-gynllunio ac i edrych ar ddilyniant sydd yn sicrhau cysondeb a chynnydd ar draws ein hysgolion.

## Dathlu Amrywiaeth Diwylliannol

Fel rhan o'n gweithgarwch i sicrhau bod yr ysgol yn Ysgol Noddfa, mae'r ysgol wedi dechrau edrych ar ein cwricwlwm er mwyn sicrhau ein bod ni'n dathlu amrywiaeth. Rydym wedi buddsoddi mewn adnoddau newydd sy'n hybu amrywiaeth, wedi edrych ar destunau rydym yn eu defnyddio fel rhan o'n cwricwlwm ac wedi ehangu ar y profiadau mae ein disgyblion yn eu derbyn er mwyn sicrhau bod ganddyn nhw ddealltwriaeth o gyfoeth diwylliannol ein dinas, ein gwlad a'r byd.

## Darpariaeth Mwy Abl A Thalentog (MAT)

Rydym yn parhau i gynllunio er mwyn caniatáu i'r disgyblion arbrofi gyda'u holl wybodaeth. Rydym yn eu herio gyda lefel her ein gwersi, mae'r annibyniaeth yn ystod sesiynau 10-10-10 yn caniatáu i'r disgyblion arddangos eu hannibyniaeth a'u hawydd i ddyfnhau eu gwybodaeth ac mae'r rôl arweiniol sydd gan ein disgyblion trwy wythnosau dathlu a phwyllgorau wedi'u canmol wrth i'r ysgol dderbyn ei hail wobr NACE am ein darpariaeth i herio disgyblion.

Aeth disgyblion sydd ar gofrestr MAT ym mlwyddyn 5 a 6 am weithdy rhifedd yn Ysgol Eglwys Newydd.

## Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae'r ysgol yn darparu hefyd ar gyfer ein disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Rydym yn cynllunio yn fwriadol er mwyn sicrhau bod pob un plentyn yn cael mewnbwn i'r gwersi ac yn gwneud cynnydd yn eu dysgu. Mae rhai disgyblion wedi derbyn sesiynau ychwanegol er mwyn hybu'r sgiliau hyn ymhellach trwy weithgarwch ymyraethau megis Tric a Chlic, Mathemateg a lles. Rydym yn falch iawn bod canran hynod o uchel o'n plant yn gwybod gyda phwy i siarad os yn gofidio yn yr ysgol.

Eleni rydym wedi croesawu Becca Kineman i weithio'n wythnosol yn yr ysgol fel therapydd chwarae ynghyd â chydweithio gyda chwnselydd arbenigol yr awdurdod a chwnselydd galar o elusen City Hospice. Mae'r gweithgarwch yma i gyd wedi sicrhau darpariaeth arbenigol i ddisgyblion bregus yn yr ysgol.

Rydym yn falch iawn o'r ffaith ein bod wedi ennill Gwobr Ysgol Dyslecsia Gyfeillgar am y ffordd rydym yn darparu yn ein gweithgarwch dyddiol ar gyfer disgyblion sydd â Dyslecsia.

# Chwaraeon

## Gwersi Hwylio

Yn Nhymor yr Haf aeth disgyblion blwyddyn 5 ar gwrs 6 wythnos o wersi hwylio. Yn wythnosol, roedden nhw'n mentro i Fae Caerdydd i ddatblygu eu sgiliau! Erbyn diwedd y chwe wythnos roedd pob disgybl wedi derbyn cymhwyster lefel 1 mewn hwylio.

## Gwersi Nofio

Eto, fel rhan o'n cwricwlwm Iechyd a Lles, treuliodd blwyddyn 3 bythefnos yn mwynhau gwersi nofio dyddiol yng Nghanolfan Hamdden Y Tyllgoed. Braf oedd gweld eu sgiliau yn datblygu yn ystod y gwersi.

## Cystadlaethau

Rydym yn manteisio ar bob cyfle i gymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon yn y ddinas. Rydym wedi cymryd rhan mewn cystadlaethau Pêl-droed, Pêl-rwyd, Rygbi a Chriced. Rydym hefyd wedi cymryd rhan mewn amryw o gemau cyfeillgar er mwyn rhoi profiadau pellach i'n disgyblion ni o gystadlu ar y maes chwarae.

Mae'r tîm rygbi wedi serennu eleni gan ennill twrnamaint 10 bob ochr Caerdydd a'r Fro yn ogystal ag ennill twrnamaint 7 bob ochr Caerdydd a'r Fro yr Urdd. Yn sgil y llwyddiant yma, bu'r tîm yn cystadlu mewn dau dwrnamaint Cenedlaethol gan gynrychioli Caerdydd a'r Fro. Enillwyd cwpan Alun Griffiths yn y rownd derfynol yn y twrnamaint 10 bob ochr ac fe aeth y tîm mor bell â'r rowndiau cyn-derfynol yn nhwrnamaint 7 bob ochr yr Urdd yn Aberystwyth. Am gamp arbennig!

## Cydweithio gyda Phrifysgol y MET ac Ysgol Y Gadeirlan

Mae'r disgyblion yn yr adran dros 7 wedi manteisio ar sesiynau arbenigol sydd yn cael eu cynnal gan Brifysgol y Met. Maen nhw wedi manteisio ar adnoddau ac arbenigedd ym maes: trampolinio, criced, aml-chwaraeon a rygbi.

Braf iawn oedd cydweithio gydag Ysgol y Gadeirlan fel rhan o fenter gymunedol wrth i flwyddyn 5 dderbyn cyfres o wersi a oedd yn annog gweithgarwch tîm. Roedd y sesiynau yma yn cael eu cynnal yn Ysgol Pencae yn ogystal ag yn Ysgol Y Gadeirlan.

## Clwb Chwaraeon yr Urdd

Braf yw croesawu'r Urdd i'r ysgol bob amser chwarae dydd Mercher er mwyn cynnal clwb chwaraeon i'r adran dros 7. Mae'r disgyblion wrth eu boddau yn ystod y sesiwn.

## Clybiau Allgyrsiol

Eleni, rydym wedi parhau i ychwanegu at ein clybiau allgyrsiol.

| | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau |
|---|---|---|---|
| **Amser Cinio** | **Bl5 - 6**<br>Mandarin | **Bl3-6**<br>Clwb Chwaraeon yr Urdd | |
| **Ar ôl ysgol** | **Bl2-4**<br>Clwb yr Urdd<br><br>**Bl5 - 6**<br>Clwb Chwaraeon | **Bl3-4**<br>Clwb Pêl-rwyd | **Bl3 - 6**<br>Côr |

# Llais y Disgyblion

**Dosbarth Derbyn**:
Mae Dosbarth Derbyn eleni wedi bod yn llawn anturiaethau, dysgu, a hwyl. Rydyn ni'n griw o blant hyfryd a chwilfrydig sy'n hoffi gwneud popeth gyda'n gilydd. Eleni, rydym wedi croesawu ffrind newydd i'r dosbarth - croeso i Bencae Alexandra. Buon ni'n dysgu am bob math o flodau ac adar yn nhymor yr Haf, ac un o uchafbwyntiau ein blwyddyn oedd ein trip i Barc Biwt i fynd ar helfa trychfilod a chasglu deunyddiau naturiol i greu darn o gelf anhygoel.
Un o hoff weithgareddau'r Dosbarth Derbyn oedd dysgu'r gân "Titw Tomos Las" a'i pherfformio yn ein gwasanaeth dosbarth. Mae gennym lawer o gantorion talentog yn ein dosbarth! Rydyn ni'n griw hynod greadigol sy'n mwynhau defnyddio ein sgiliau datrys problemau i greu modelau a chrefftau amrywiol, megis ein dalwyr breuddwydion a thŷ i Dewi'r Draenog allan o flociau pren.
Ein prif ffocws yn ystod y flwyddyn oedd gweithio'n galed ar ein sgiliau ysgrifennu, a llwyddon ni i ysgrifennu cerddi am gystadleuaeth yr Eisteddfod a hyd yn oed ysgrifennu disgrifiad o flodyn haul. Mae Mathemateg eleni wedi bod yn llawer o hwyl ond hefyd yn rhywfaint o her, ond rydyn ni'n hoffi heriau. Un o'n hoff bethau ym Mathemateg eleni oedd dysgu sut i ddyblu gyda Numicon a dysgu sut i haneru trwy goginio pitsa!
Rydyn ni wedi dechrau dysgu defnyddio sawl rhaglen newydd eleni fel JIt, Seesaw a'r Beebots. Ein hoff raglen oedd Jit, roedden ni wedi casglu data oddi wrth y dosbarth gan holi am ein hoff raglenni ac yna drosglwyddo'r data i graff bar.
Er ein bod ni'n mynd i golli Dosbarth Derbyn, rydyn ni'n barod am ein her nesaf ac i ddechrau ym mlwyddyn 1 ym mis Medi!

**Blwyddyn 1:**
Mae Blwyddyn 1 eleni wedi bod yn llawn antur, dysgu a hwyl. Rydyn ni yn griw o ffrindiau da sydd wrth ein boddau yn gwneud pob dim gyda'n gilydd. Buon ni'n dysgu am bob math o bethau eleni. Un o'r uchafbwyntiau oedd darllen stori Mamgu, Mali a Mbuya a chwrdd â'r awdur. Roedden ni wrth ein boddau yn paratoi salad ffrwythau o Gymru a Zimbabwe, ffrwyth y ddraig oedd ein ffefryn. Mae Mathemateg eleni wedi bod yn heriol ond rydyn ni'n hoffi her. Un o'n hoff bethau ym Mathemateg eleni oedd dysgu defnyddio arian. Aethon ni i siop Lidl i brynu ffrwythau, roedd yn rhaid i ni dalu gyda'r arian cywir. Rydyn ni wedi bod yn lwcus i fynd ar dripiau eleni. Aethon ni i Sain Ffagan a dysgu am sut roedd bywyd amser maith yn ôl, roedd lot o bethau diddorol i weld yna! Aethon ni hefyd i'r theatr ddwywaith. Roedd Sioe Deian a Loli yn yr haf yn wych, ein hoff gymeriad oedd Capten.

**Blwyddyn 2:**
Yn sicr, rydyn ni wedi cael llawer iawn o hwyl ym mlwyddyn 2 yng nghwmni Miss Richards a Mrs Collins. Mae llawer o uchafbwyntiau i'r flwyddyn ond dyma ein hoff brofiadau:
Roedden ni wrth ein boddau yn darllen y llyfr Granchie a'r Dderwen Fawr gan ddysgu mwy am hanes Windrush a thraddodiadau Antigua. Ein hoff weithgaredd oedd gwneud model o gwch Windrush.
Roedd dysgu chwedl Cantre'r Gwaelod yn arbennig hefyd a dyma oedd sail ein gwasanaeth dosbarth.
Roedd ein trip i'r Llyfrgell i fraslunio gyda'r darlunydd Huw Aaron yn arbennig ac roedden ni wrth ein boddau yn crwydro'r Amgueddfa yn edrych ar ddinosoriaid.
Yn ogystal â hyn i gyd, rydym wedi bod wrth ein bodd yn chwarae pêl-droed, mwynhau yn y parc a dathlu Dydd Miwsig Cymru. Ymlaen â ni i flwyddyn 3!

***Blwyddyn 3:***
Rydyn ni wedi cael blwyddyn brysur ym mlwyddyn 3 eleni. Rydyn ni wedi mwynhau dysgu am yr ardal leol, y corff ac am hawliau plant. Rydyn ni wrth ein boddau yn dysgu trwy wneud cwisys Kahoot, defnyddio Lego WeDo, gweithio ar y cyfrifiadur a chwarae Sumdog. Uchafbwyntiau'r flwyddyn i ni oedd y daith i Bwll Mawr i ddysgu am waith plant yn Oes Fictoria, ein gwasanaeth

dosbarth am Blodeuwedd a pherfformio sioe Matilda. Dathlon ni Wythnos Ffoaduriaid ac ysgrifennon ni gerdd acrostig i groesawu ymwelwyr o bob cwr o'r byd a mwynheuon ni gerdded mynydd y Garth, diwrnod mabolgampau a chreu wrap salad yn ystod Wythnos Iolo Iachus. Rydyn ni'n hoffi gwersi ymarfer corff ac ar ddechrau'r flwyddyn cawson ni wersi nofio ac aethon ni i Met Caerdydd am wersi gymnasteg a thrampolinio. Plannon ni flodau ar iard yr ysgol a gofalon ni amdanyn nhw trwy'r tymor, maen nhw nawr yn hyfryd a lliwgar. Roedden ni wrth ein boddau yn y Clwb Digidol.

**Blwyddyn 4**:

Rydyn ni ym Mlwyddyn 4 wedi mwynhau llawer o brofiadau eleni. Un peth rydyn ni wrth ein boddau yn gwneud ydy gweithgareddau ymarferol. Mae hynny wedi amrywio o greu hetiau bach, codio, coginio pizzas, dawnsio gwerin, dylunio model o beth rydyn ni eisiau yng ngardd Pencae a llawer mwy! Hefyd, rydyn ni bob tro yn frwdfrydig wrth chwarae gemau, yn gwisiau kahoot, gemau bwrdd fel bananagrams, Minecraft Education, Sumdog a gemau ymarfer corff.

Ar lawr y dosbarth, rydyn ni wedi mwynhau dysgu sgiliau ieithyddol newydd, fel treiglo wedi'r arddodiaid a dysgu sut i baragraffu. Hefyd, roedden ni wedi mwynhau creu a disgrifio cymeriad ein hun yn Saesneg. Yn y Gymraeg, dysgon ni sut i ysgrifennu testun perswadiol - roedd meddwl am syniadau i berswadio plant i fynd i Maes y Fron yn hawdd! Ein hoff lyfrau wrth ddarllen fel dosbarth oedd Trio - Antur y Mileniwm, Fantastic Mr Fox a Malala's Magic Pencil. Hefyd, rydyn ni yn feirdd yn flwyddyn 4, gan ein bod ni wedi bod yn brysur yn ysgrifennu cerddi ar gyfer yr eisteddfod gyda'r teitl 'Y Bwgan!'

Rydyn ni wrth ein boddau yn datblygu sgiliau technoleg yn y dosbarth. Defnyddion ni lawer o Google sites, Google Slides, Google Forms ac Adobe Spark eleni! Hefyd, rydyn ni wrth ein boddau yn ein gwersi mathemateg. Rydyn ni wedi dysgu sut i luosi 2 ddigid gyda 1 digid a defnyddio dull gorsaf bws.

Yn ogystal â gweithgareddau ymarferol, rydyn ni yn berfformwyr o fri! Rydyn ni wedi mwynhau adrodd cerdd a chanu yn ein Sioe Nadolig, cystadlu yn yr Eisteddfod Ysgol, perfformio yn hyderus yn ein gwasanaeth am y Corff, adrodd cerdd i ffoaduriaid, ac i goroni'r cyfan - sioe Matilda!

Er ein bod wedi cael llwyth o brofiadau ar lawr y dosbarth, mae yna nifer o bethau gwych wedi digwydd tu fas i'r dosbarth hefyd. Mae hynny yn cynnwys taith i Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, plannu coed yn Danescourt, cerdded i fyny mynydd y Garth, mabolgampau, twrnameintiau pêl-droed a rygbi, a thaith fythgofiadwy i Maes y Fron.

Er ein bod ni yn mynd i golli blwyddyn 4, rydyn ni yn barod am ein her nesaf ac i ddechrau ym mlwyddyn 5 ym mis Medi!

**Blwyddyn 5:**

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur iawn i ni ym mlwyddyn 5 ac mae'r uchafbwyntiau yn niferus. Does dim amheuaeth ein bod ni wedi ein sbarduno yn llwyr gyda'n cyd-destunau dysgu eleni. Roedden ni wrth ein boddau yn dysgu am y gofod, y ffeithiau a'r holl straeon cysylltiedig. Mwynheuon ni greu gwaith celf a oedd yn efelychu'r gofod ynghyd â model o'r planedau. Roedden ni wrth ein boddau yn cyflwyno gwasanaeth dosbarth egnïol yn cyflwyno'r hanes.

Chawson ni ddim ein siomi wrth ddysgu am fywyd yn ystod yr ail ryfel byd. Yn sicr roedd bywyd yn anodd ac roedd dysgu am fywyd ifaciwî, milwyr a phobl gyffredin yn y ddinas yn agoriad llygad.

Mae chwaraeon wedi bod yn rhan bwysig o'n blwyddyn ni eleni. Nid yn unig wnaethon ni fwynhau cyd-destun dysgu a oedd yn canolbwyntio ar gwpan y byd ond fe aethon ni yn wythnosol i Brifysgol y MET i dderbyn sesiynau aml-chwaraeon. Roedd yr adnoddau yn wych. Mwynheuon ni sesiynau gan Ysgol y Gadeirlan ble roedden ni'n dyfnhau ein medrau cydweithio a heb os, un o'r uchafbwyntiau mwyaf oedd chwe wythnos o wersi Hwylio! Roedd hwn yn brofiad anhygoel! Do, fe wnaethon ni gwympo mewn i'r dŵr rhewllyd fwy nag unwaith ond roedd datblygu ein rheolaeth ni o'r cwch o wythnos i wythnos yn wefr arbennig. Mae rhai ohonon ni yn bwriadu gwneud cymhwyster lefel 2 yn ystod gwyliau'r haf o ganlyniad!

Blwyddyn arbennig ac edrychwn ymlaen yn arw i gychwyn ar ein gwaith fel modelau rôl yr ysgol ym mlwyddyn 6.

**Blwyddyn 6**:

Heb os, uchafbwynt y flwyddyn i mi oedd yr holl gyfleoedd chwaraeon yn ystod y flwyddyn. O rygbi i bêl-droed ac o rygbi cadair olwyn i bêl-rwyd. Ond y prif uchafbwynt i mi oedd ennill twrnamaint rygbi saith bob ochr a 10 bob ochr Caerdydd a'r Fro a chael cynrychioli nid yn unig Ysgol Pencae, ond Caerdydd a'r Fro mewn dau dwrnamaint cenedlaethol. Bydd y profiadau yna'n aros yn y cof am byth!

Mae Blwyddyn 6 wedi bod yn flwyddyn arbennig i ni. Mae sawl peth yn aros yn y cof. Rydym wedi mwynhau'r diwrnodau pontio amrywiol yn ystod y flwyddyn. Y cyntaf oedd diwrnod Mathemateg, Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Yna cawson ni gyfle i wylio Sioe Gerdd yr Ysgol. Yn ystod Tymor yr Haf, roeddwn wrth fy modd yn ystod y diwrnod pontio chwaraeon lle cawson ni gyfleoedd i gymryd rhan mewn pob math o chwaraeon. Diwedd y sesiynau pontio oedd cael mynychu'r ysgol uwchradd ar ben ein hun a chael ein trin fel disgyblion Blwyddyn 7 am y dydd.

Mae Blwyddyn 6 wedi bod yn flwyddyn i'w chofio. Does dim dwywaith mai uchafbwynt y flwyddyn oedd mynd i Langrannog am wythnos gyfan. Cawson ni wythnos arbennig yn gwneud ffrindiau newydd gan ddod i adnabod plant o ysgolion sydd yn bwydo Ysgol Glantaf. Uchafbwynt yr wythnos i mi oedd cerdded i lawr i draeth Llangrannog a chael chwarae yn y dŵr. Uchafbwynt arall oedd cael mentro ar y cwrs antur, neu'r cwrs mwd fel mae'n cael ei adnabod. Roeddwn yn fwd i gyd!

Does dim dwywaith amdani, uchafbwynt y flwyddyn ac uchafbwynt fy amser yn Ysgol Pencae oedd cael perfformio ein sioe gerdd 'Matilda'. Roedd wythnosau o ymarfer wedi arwain at berfformiad fydd yn aros yn y cof am byth. Wnâi fyth anghofio'r gynulleidfa yn aros ar eu traed yn neuadd Ysgol Glantaf ar ddiwedd y sioe. Mae caneuon y sioe yn dal i chwarae yn fy mhen hyd heddiw.

# Pwyllgorau Llais y Plentyn

Mae ein pwyllgorau wedi bod yn brysur wrth ddatblygu elfennau o'r ysgol ac mae ein diolch yn fawr iawn iddyn nhw am eu gwaith. Dyma rai o'u huchafbwyntiau nhw:

| | | |
|---|---|---|
| <br>-Cydweithio gydag Ysgol Hawthorn<br>-Gweithgarwch Diwrnod Shwmae Sumae<br>-Gweithgarwch Wythnos Cymreictod | <br>-Derbyn gweithdy Micro.bit.<br>-Cyd-ddysgu disgyblion Bl2-6 ar sut i ddefnyddio Micro.bit.<br>-Cynnal gwasanaeth Diogelwch ar y we | <br>-Gwasanaeth<br>-Cyfarfod gyda'r Llywodraethwyr yn dymhorol. |
| <br>-Cynnal gwasanaeth y mis yn cyflwyno hawl y mis<br>-Paratoi y gwasanaeth yn weledol i'r ysgol<br>-Mynd ar drip i Gynhadledd Hawliau Plant Caerdydd | <br>-Gweithdy gyda'r artist digidol, Lowri Roberts i ddylunio ein cymeriadau ysgol<br>-Cynrychioli'r ysgol ar Ein Senedd Ni | <br>-Cynnal stondin smwddis ar yr iard<br>-Cynnal clybiau amser cinio i ddisgyblion yr ysgol. |

Mae pob un pwyllgor wedi cael amser i gydweithio gyda'r Llywodraethwyr trwy eu cyfarfod nhw ddwywaith yn ystod y flwyddyn i rannu eu gweledigaeth, eu gweithgareddau a gwerthuso eu llwyddiant.

# Pontio

## Ysgol Uwchradd

Fe gafodd ein disgyblion ym mlwyddyn 6 brofiadau arbennig wrth baratoi ar gyfer eu pennod nesaf yn yr ysgol uwchradd. Mae'r rhan fwyaf o'n disgyblion wedi camu ymlaen i Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, aeth un disgybl i Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr ac un disgybl i Ysgol Bro Edern.
Yn gynnar yn y flwyddyn mwynheuon nhw ddiwrnod cyfan yn Ysgol Glantaf yn cymryd rhan mewn amrywiol wersi STEM. Maen nhw hefyd wedi mwynhau diwrnod o wersi yn targedu creadigrwydd celfyddydau mynegiannol a diwrnod egnïol yn ystod diwrnod chwaraeon y clwstwr.

Yn ogystal, maen nhw wedi mwynhau amrywiol ymweliadau gan Mr Evans (Pennaeth Ysgol Glantaf), sgyrsiau gyda disgyblion o flwyddyn 7 er mwyn holi cwestiynau a sesiwn gyda Mrs Roberts a Mrs James (Arweinydd Cynnydd a Lles Blwyddyn 7). Wrth gwrs, un o weithgareddau mwyaf dylanwadol y calendr pontio oedd wythnos yn Llangrannog yn cymdeithasu gyda'u cyfoedion yn yr ysgolion clwstwr eraill.

## Dosbarth Derbyn 2024 - 2025

Braf oedd croesawu ein dosbarth derbyn newydd am fore ar ddechrau mis Gorffennaf. Mwynheuodd y disgyblion fore yn eu dosbarthiadau newydd yn arbrofi gydag amrywiol weithgareddau a dod i adnabod ei gilydd tra bod y rhieni yn derbyn cyflwyniad ar weithdrefnau'r ysgol. Aeth Miss Evans a Mrs Le Bon i ymweld â'r holl feithrinfeydd yn ogystal er mwyn cyfarfod y disgyblion mewn lleoliad cyfarwydd a chyfathrebu gyda'u hathrawon meithrin.

## Diwrnod Pontio

Cafodd holl ddisgyblion yr ysgol ddiwrnod pontio gyda'u hathrawon newydd. Roedd gweithgareddau hwyliog wedi eu trefnu ac roedd pawb yn gyffrous iawn wrth feddwl am fis Medi ar ddiwedd y bore hwnnw.

Rydym yn falch bod mwyafrif y disgyblion yn cytuno ein bod yn eu paratoi ar gyfer eu cyfnodau nesaf yn yr ysgol:



# Staffio

## Strwythur Staffio 2023 - 2024

### Uwch Dîm Arwain:

**Pennaeth:** Miss Siwan Dafydd
**Dirprwy Bennaeth ac Arweinydd CA2**: Mr Aled Thomas
**Arweinydd Cyfrifoldebau Traws-gwricwlaidd:** Miss Catrin Fflur Williams **tan fis Ebrill**
**Arweinydd yr adran dan 7:** Miss Catrin Richards **tan fis Ebrill**
**Arweinydd Profiadau'r Adran Sylfaen a'r medrau traws-gwricwlaidd:** Mrs Bethan Parry **Ebrill -**
**Cydlynydd Anghenion Addysg Ychwanegol:** Mrs Catrin Cleverley

| Dosbarth Derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 | CPA |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Miss Emily Evans | Miss Taome Edwards / Mrs Bethan Parry | Miss Catrin Richards | Miss Catrin Williams | Miss Sioned Maskell | Mrs Mari Pritchard | Mr Aled Thomas | Mrs Abi Lewis / Mrs Nia Davies Mrs Catrin Cleverley |
| Mrs Le Bon | Mrs Siân John Mrs Nerys Evans | Mrs Marie Collins Mrs Ceril Jeffcott | Mrs Sue Williams | | | | |

## Strwythur Staffio 2024 - 2025

### Uwch Dîm Arwain:

**Pennaeth:** Miss Siwan Dafydd
**Dirprwy Bennaeth ac Arweinydd CA2**: Mr Aled Thomas
**Arweinydd Profiadau'r Adran Sylfaen a'r medrau traws-gwricwlaidd:** Mrs Bethan Parry
**Cydlynydd Anghenion Addysg Ychwanegol:** Mrs Catrin Cleverley

| Dosbarth Derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 | CPA |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Miss Emily Evans | Mrs C atrin Cleverley / Mrs Bethan Parry | Miss Catrin Richards | Miss Catrin Williams | Mr Rhys Morgan | Mrs Mari Pritchard | Mr Aled Thomas | Mrs Nia Davies / Mrs Abi Lewis Mrs Bethan Parry Mrs Le Bon |
| Mrs Le Bon Mrs John | Mrs Sue Williams | Mrs Marie Collins | Mrs Bethan Fox | Mrs Ceril Jeffcott | Mrs Ceril Jeffcott Miss Sarah Mills | | |

# Datblygiadau'r Ysgol

## Gardd Pencae

Rydym wedi dechrau gweithio ar ein gardd.  Diolch i gyfraniad gan rieni rydym wedi prynu sied newydd sbon ac rydym wedi ennill grant gan Tesco er mwyn prynu gwlâu blodau er mwyn creu rhandir i bob dosbarth.

# Polisïau

## Diogelu Plant

Mae'r ysgol yn dilyn polisi Diogelu Plant a chaiff y staff hyfforddiant blynyddol parthed hyn. Byddwn yn cadw cofnodion o unrhyw bryderon amddiffyn neu ddiogelu plant ar raglen My Concern neu yn nogfennau Nodiadau Maes yr athrawon.
Mae'r polisi yn cael ei ddiwygio yn flynyddol ac mae modd ei weld ar wefan yr ysgol.

| Uwch Athro Dynodedig Diogelu Plant | Athro Dynodedig Diogelu Plant | Llywodraethwr Dynodedig Diogelu Plant |
|---|---|---|
| Siwan Dafydd | Aled Thomas | Emma Simpkins |

### Polisi Tŷ Bach

Mae gan yr Ysgol Bolisi Tŷ Bach sy'n cyd-fynd â'r gofynion statudol. Amlinellir ynddo ansawdd a chyfanswm y tai bach sydd yn yr ysgol ynghyd â'r ddarpariaeth a'r gofal sydd ar gael ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion tŷ bach arbennig. Mae'r ysgol yn cydweithio gyda'r Sir yn y gobaith o ddiweddaru ein tai bach ar gyfer yr adran dysgu sylfaen.

### Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar waith yn yr ysgol ac, yn unol â pholisi'r Sir, fe'i gwerthusir yn flynyddol. Pe dymunech gopi o Gynllun Cydraddoldeb Strategol Ysgol Pencae, cysylltwch â'r Pennaeth.

## Rhestr o bolisïau sydd wedi'u diweddaru

Mae adran ar y wefan ble rydyn ni'n cadw llawer o'n polisïau. Cysylltwch â'r Pennaeth pe dymunech gopïau caled o'r polisïau.

# Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Mynychodd nifer o'r athrawon a'r cynorthwywyr hyfforddiant a chyrsiau penodol, e.e. Darllen, Garddio, Egwyddorion Addysgeg Froebel, Rhifedd a Dyniaethau Digidol, Celfyddydau Mynegiannol Opera i enwi ond rhai, gyda'r nod o godi a chynnal safonau ynghyd â chyfoethogi'r ddarpariaeth addysgol ymhellach i'r disgyblion.
Mae pob aelod o'r staff wedi derbyn hyfforddiant Diogelu Plant a Chymorth Cyntaf.

Mae ein sesiynau hyfforddiant mewn swydd yn targedu blaenoriaethau'r ysgol ac rydym wedi cael gweithdai a chyfnod i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, strategaethau Llais 21, strategaethau adborth a chysoni arferion yn y dosbarthiadau.

## Rheoli Perfformiad

Mae'r polisi hwn yn weithredol yn yr ysgol gyda'r broses hon yn dilyn canllawiau statudol Llywodraeth Cymru er mwyn gwarantu bod y staff yn cyfrannu at nodau cytûn yr ysgol ynghyd â nodau personol gan sicrhau eu bod yn cael y cyfleoedd priodol i ddatblygu'n broffesiynol. Cysylltir pob agwedd gyda safonau, cynnydd a chyrhaeddiad y disgyblion.

Mae'r staff wedi bod yn ymgymryd â phrosiectau ymchwil gyda'r ffocws ar ddatblygu prosesau adborth.

Diolch o galon iddyn nhw am eu holl waith caled a'u cefnogaeth ddiderfyn i'r ysgol ym mhob agwedd o fywyd a gwaith y gymuned.

## Cydweithio gydag eraill

Mae'r staff hefyd wedi bod yn cymryd rhan mewn prosiectau cydweithio ble bu'r ysgolion yn rhannu arfer dda gyda'i gilydd ac yn cydweithio i ddatblygu adnoddau.

Bu'r holl staff yn cydweithio gyda chydweithwyr ar draws y clwstwr fel aelodau o weithgorau meysydd dysgu a phrofiad Glantaf.
Bu Miss Williams yn cydweithio gyda gweithgor PSQM (Primary Science Quality Mark) ysgolion Cymraeg Caerdydd a braf yw rhannu ein bod wedi derbyn achrediad PSQM am ein gwaith.
Bu Miss Richards yn cydweithio gydag ysgolion Cymraeg Caerdydd i gyd-gynllunio cynllun a dilyniant Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb.
Roedd Miss Dafydd yn gweithio gyda Chonsortiwm Canolbarth y De fel mentor i athrawon newydd gymhwyso sydd yn gwneud gwaith cyflenwi.
Mae Mrs Cleverley wedi bod yn gweithio mewn gweithgorau gyda chydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol y ddinas.

# Datblygiadau a Chyfathrebu gyda Rhieni

## Clwb Brecwast

Roedd ein clwb brecwast yn hynod o brysur llynedd gyda rhestr aros ar gyfer pob un diwrnod ar wahân i ddydd Gwener. Diolch o galon i Alison, Ms Williams, Ms Davies a Mrs Owen am redeg y clwb.

## Clwb Carco

Eleni, dechreuodd Clwb Carco yn yr ysgol. Mae'r clwb yn rhedeg o 3.30 hyd 5.30. Mae'r clwb wedi derbyn achrediad yn ystod y flwyddyn a fydd yn ei ganiatáu i ymestyn ei oriau ym mis Medi.

## Cylchlythyrau Wythnosol

Yn wythnosol, mae'r Pennaeth yn rhannu gwybodaeth am yr ysgol mewn cylchlythyr. Mae'r cylchlythyr yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau, yn dathlu llwyddiannau, yn rhannu negeseuon pwysig ac yn aml yn gofyn am gymorth gan y rhieni.

## Cyfathrebu o ddydd i ddydd

Mae'r cyfrif Trydar (@pencae2) yn fodd i rannu ffotograffau o'r amryfal brofiadau a gaiff y disgyblion yn yr ysgol. Mae'r wefan hefyd yn atgyfnerthu ein polisi o rannu gwybodaeth a chyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni.

Eleni, mae'r ysgol wedi symud i blatfform Group Ed er mwyn danfon negeseuon. Mae'r platfform hwn yn parhau i ddatblygu ond mae'n hwyluso danfon negeseuon at yr ysgol, e.e. absenoldebau disgyblion. Mae hefyd wedi caniatáu i gofrestru yn yr ysgol fod yn fwy hygyrch sydd yn gadarnhaol o ran ein polisi iechyd a diogelwch.

## Nosweithiau Rhieni ac adrodd ar gynnydd

Yn nhymor yr Hydref cafwyd noson rhieni rithiol ble roedd yr athrawon yn rhannu targedau gyda'r rhieni ac yn trafod sut roedd y disgyblion wedi setlo yn eu dosbarthiadau newydd yn ogystal ag ateb unrhyw gwestiynau a oedd gan y rhieni.
Yn nhymor y Gwanwyn, cafwyd noson rhieni wyneb-yn-wyneb ble roedd cyfle i weld llyfrau'r plant a thrafod eu cynnydd.
Yn nhymor yr Haf, rhannwyd adroddiad cynnydd gyda'r rhieni ac roedd cyfle iddyn nhw ddod i mewn i drafod yr adroddiad gyda'r athrawon pe dymunent wneud hynny.

## Gwasanaethau Dosbarth

Braf iawn oedd ail-gychwyn ein gwasanaethau dosbarth gan wahodd rhieni i mewn i'r ysgol i weld dosbarth eu plant yn cyflwyno eu dysgu. Roedd gwefr a balchder amlwg ym mherfformiadau'r disgyblion ac roedd adborth rhieni yn rhannu eu mwynhad o'r cyfle hwn. Diolch i chi i gyd am gefnogi.

## Holiaduron Rhieni

Diolch i'r rhieni a wnaeth gymryd yr amser i lenwi ein holiaduron rhieni er mwyn clywed eich barn chi am yr ysgol. Mae'r wybodaeth hon yn allweddol er mwyn ein cynorthwyo wrth gynllunio sut i wella'r ysgol.

# Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

Mae'n anodd iawn crisialu pa mor llwyddiannus yw Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Pencae. Maen nhw'n ddi-baid yn trefnu digwyddiadau ardderchog i blant yr ysgol, i deuluoedd yr ysgol ac i oedolion yr ysgol (!) gan gasglu cymaint o arian er budd yr ysgol. Mae eu cyfraniad nhw'n amhrisiadwy ac yn caniatáu i ni wireddu llawer iawn o'n gweledigaeth.

Diolch i bawb am gefnogi holl ddigwyddiadau'r flwyddyn ond mae diolch arbennig yn mynd i'r pwyllgor a'r cynrychiolwyr dosbarth sydd yn llywio a threfnu'r holl weithgareddau.

| **Cadeirydd:** | **Is-gadeirydd:** | **Ysgrifennydd:** | **Trysorydd:** |
|---|---|---|---|
| Cath Way | Bethan Speakman | Lowri White | Jo Roberts |

Gweler isod uchafbwyntiau'r flwyddyn:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Sinema i'r Plant | Ffair Nadolig | Ffair Haf | Gardd Pencae yng Nghwrt Insole | Disgo Bw Bwgi Bw |









Llynedd fe wnaeth y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon gyfrannu i'r canlynol yn yr ysgol: bws blwyddyn 6 i Langrannog, bws blwyddyn 4 i Faes y Fron, blociau newydd Froebel i'r adran dan 7 ac arwyddion Cymraeg i'r iard. Diolch yn fawr!

# Newidiadau i'r Prospectws

Nid oes newid wedi bod i'r prospectws eleni, ond rydym yn edrych i'w ddiweddaru yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf.

Mae copi o'r prospectws cyfredol ar y wefan.

# Blaenoriaethau Cynllun Gwella Ysgol 2024 - 2025

Blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 - Sicrhau bod y ddarpariaeth yn yr adran dan 7 yn galluogi y disgyblion i herio eu hunain a gwneud cynnydd yn eu medrau, yn enwedig eu cynnydd darllen a rhifedd. | 2 -<br>a-Datblygu effaith y timau Meysydd Dysgu a Phrofiad er mwyn sicrhau cysondeb addysgu ac addysgu sy'n arwain at gynnydd ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad. Bydd hwn yn rhan o weithgarwch clwstwr.<br>b - Cyfoethogi profiadau bywyd go iawn ein disgyblion o fewn y cwricwlwm er mwyn arwain at gynnydd ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. | 3 - Datblygu cwricwlwm a phrofiadau yr ysgol er mwyn datblygu ein harbenigedd wrth addysgu Amrywiaeth, gyda'r prif bwyslais eleni ar Hiliaeth a Gwrth-hiliaeth. | 4 - Datblygu annibyniaeth disgyblion ar y gofrestr ADY a strategaethau monitro disgyblion bregus |

# Edrych Ymlaen at 2024 - 2025

-Datblygu Gardd yr Ysgol
-Parhau i ddatblygu llais y disgyblion trwy weithgarwch y pwyllgorau